The Regulatory Board for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynhaliwyd trydydd cyfarfod Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (y Bwrdd) ar 21 Rhagfyr yn swyddfa Pennaf yn y Gogledd. Hoffai'r Bwrdd ddiolch i Pennaf am y croeso a'r cipolwg diddorol ar ei fusnes a gyflwynwyd i'r Bwrdd dros ginio.

Fel arfer, roedd yr agenda yn llawn iawn. Dechreuwyd drwy drafod y prif bwyntiau roeddem am eu cyfleu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) er mwyn llywio ei "Ymchwiliad i Drefn Reoleiddio Cymdeithasau Tai". Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud ei gyflwyniad ei hun (ac rydym yn Fwrdd Cynghori i Ysgrifennydd y Cabinet), gwnaethom benderfynu y byddem yn paratoi cyflwyniad ar wahân i'r Pwyllgor er mwyn tanlinellu ein safbwyntiau ein hunain ar lawer o'r materion sy'n ymwneud â rheoleiddio. Mae cyflwyniad y Bwrdd ar gael yma (http://bit.ly/2jyY7bH).

Mae sicrhau bod y Fframwaith Rheoleiddiol yn rhoi sylw i lais tenantiaid yn fater sy'n bwysig iawn i mi a'r Bwrdd cyfan. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Panel Cynghori Tenantiaid (PCT) am ei holl waith caled dros y blynyddoedd i greu dolen gyswllt effeithiol rhwng y Bwrdd a thenantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru. Ystyriodd y Bwrdd rai cynigion newydd, cyffrous a gyflwynwyd gan TPAS Cymru (sydd wedi cyflwyno tendr llwyddiannus ar gyfer contract cymorth tenantiaid sengl Llywodraeth Cymru) i adnewyddu'r ffordd y caiff safbwyntiau tenantiaid eu casglu a'u cyflwyno i'r Bwrdd. Bydd y dull gweithredu newydd hwn yn defnyddio cymysgedd o rwydweithiau traddodiadol, gweithdai a chyfryngau newydd i gasglu safbwyntiau gan ystod lawer ehangach a mwy cynrychioliadol o denantiaid cymdeithasau tai. Drwy fabwysiadu'r dull gweithredu mwy modern hwn, a hwylusir gan TPAS Cymru, ni fydd angen y Panel Cynghori Tenantiaid mwyach a chaiff ei ddiddymu. Rydym yn sefydlu Grŵp Llywio i sicrhau bod y ffordd newydd hon o weithio yn arwain at lais cryfach i denantiaid yn y broses reoleiddio ac rwy'n falch iawn y bydd Mike Wiseman, Cadeirydd y Panel Cynghori Tenantiaid ar hyn o bryd, yn parhau i weithio gyda ni fel aelod o'r grŵp hwnnw. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ar ran y Bwrdd i holl aelodau a chyn-aelodau'r Panel Cynghori Tenantiaid am eu hymdrechion.

Cawsom y wybodaeth ddiweddaraf am ymarfer ailddosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Gwnaethom bwyso ar y Rheoleiddiwr i roi gwybodaeth am hynt y broses a gwnaethom ailadrodd ein barn bod datrys y mater hwn yn flaenoriaeth allweddol i'r tîm.

Roedd y diweddariad ar yr adolygiad thematig presennol (Gwerth am Arian) yn ddefnyddiol hefyd – mae'n amlwg ei fod wedi cyflawni rhai canlyniadau da o ran cysoni metrigau gwerth am arian (diolch i Fforwm Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru) a helpu i ddatblygu diwylliant gwerth am arian yn y sector. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn awyddus i gam nesaf yr adolygiad hwn nodi'n union beth y dylai'r sector yn ei gyfanrwydd fod yn ei wneud i ddangos ei werth cymdeithasol ac adlewyrchu profiadau a blaenoriaethau tenantiaid. Gwnaethom drafod opsiynau ar gyfer adolygiadau thematig

yn 2017 a theimlwyd y byddai adroddiad ar gynnydd Adolygiad Llywodraethu pellgyrhaeddol 2013 yn hynod o ddefnyddiol.

Cafodd nifer o achosion yn yr arfaeth sy'n galw am ymyrraeth reoleiddiol eu dwyn i'n sylw a gwnaethom ddarparu cymysgedd o her a chymorth i'r Rheoleiddiwr ar ei ffordd o ymdrin â'r achosion hyn. Credwn fod y broses newydd o nodi gwersi allweddol o achosion o fethiannau llywodraethu (a'u rhannu mewn cynadleddau fel y gall y sector cyfan wella) yn bwysig ac mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r ymarfer hwn gael ei gynnal yn benodol ar gyfer un o'r achosion cymhleth presennol cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd y Rheoleiddiwr i ni am ein barn ar y syniad o alluogi Swyddogion Gweithredol i wasanaethu ar Fyrddau. Mae dadleuon cryf ar y ddwy ochr, ond roeddem bob tro yn dod yn ôl at rai o ddaliadau allweddol y Bwrdd ynglŷn â'r sector a oedd yn berthnasol i lawer o'r eitemau ar yr agenda (yn ogystal â'n cyflwyniad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus), sef;

- Dylai Byrddau sefydliadau annibynnol fod yn ymreolaethol er mwyn gwneud eu penderfyniadau eu hunain – mae hyn, wrth gwrs, yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Bwrdd yn meddu ar y sgiliau cywir
- Mae'n rhaid i Fyrddau wybod eu bod yn atebol am ganlyniad eu penderfyniadau – y Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol yn y pen draw
- Rhaid i drefniadau llywodraethu Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod o'r ansawdd uchaf posibl.

O ystyried yr egwyddorion uchod, ein cyngor i'r Rheoleiddiwr oedd y dylai Byrddau eu hunain allu penderfynu p'un a hoffent gael Swyddogion Gweithredol fel aelodau Bwrdd.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan Ian Williams ar strwythur presennol y Tîm Rheoleiddio. Roedd y Bwrdd o blaid cael dau dîm ar wahân; un yn canolbwyntio ar weithrediadau ac un arall ar faterion strategol. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed hefyd am nifer y Barnau Rheoleiddiol a oedd yn cael eu cyhoeddi.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan Gayna Jones, Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoleiddio (GCRh), ar y ddadl a'r drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp. Mae'r Bwrdd yn teimlo bod y ffordd y mae'r Grŵp yn gweithio ac yn rhoi gwybodaeth gadarn i'r Bwrdd o safbwynt rhanddeiliaid yn galonogol iawn. Mae tymor Gayna fel Cadeirydd yn dod i ben ac mae'n bleser gennyf gyhoeddi mai Bob Smith fydd Cadeirydd y Grŵp o fis Mawrth 2017. Hoffwn ddiolch i Gayna Jones am ei hymrwymiad i'r Grŵp dros y blynyddoedd diwethaf; mae ei chyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy.

Roedd yn drydydd cyfarfod diddorol. Teimlaf fod y Bwrdd nawr yn dechrau magu nerth er bod lle i wella'r ffordd rydym yn gweithio bob amser, fel pob Bwrdd arall. Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar ein hagenda.

Rwyf bob amser yn awyddus i glywed gennych. Gallwch gysylltu â mi yn helenwhite14@btinternet.com. Byddaf (ynghyd â rhai o aelodau'r Bwrdd a swyddogion y Tîm Rheoleiddio) hefyd yng Nghynhadledd Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru ddiwedd mis Chwefror, felly edrychaf ymlaen at gyfarfod llawer ohonoch yno.

Helen White (Cadeirydd)
Bwrdd Rheoleiddiol Cymru